Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae E235 *Seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff ar waith*, yn disodli'r modiwl lefel 2presennol, E233 Seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff: Dull astudiaeth achos. Mae'r modiwl yn fodiwl 60 credyd, sy'n caniatáu i'r pynciau astudio perthnasol gael eu hystyried yn fanylach ac yn sicrhau y gall materion cyfoes gael eu cynnwys.

Mae'r modiwl yn cynnwys pum pwnc astudio sydd wedi'u nodi'n rhai pwysig ym maes seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff. Sef:

- Pwnc astudio 1 *Archwilio seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff*
- Pwnc astudio 2 *Seicoleg mewn chwaraeon: mewnwelediadau a chymwysiadau*
- Pwnc astudio 3 *Hyfforddiant sgiliau seicolegol*
- Pwnc astudio 4 *Seicoleg mewn Ymarfer Corff: mewnwelediadau a chymwysiadau*
- Pwnc astudio 5 *Pynciau Arbennig ym maes seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff*

Cyflwynir pwnc astudio 5 fel cwrs agored bathodynnog Open Learn ym maes Seicoleg mewn Chwaraeon. Bydd myfyrwyr yn dewis un o'r ddau gwrs agored bathodynnog dewisol sydd naill ai'n ymwneud ag Anaf neu Gorflino.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu faes cysylltiedig
- Profiad o weithio yn y sector chwaraeon neu ffitrwydd
- Profiad o helpu eraill i ddysgu ar lefel gradd (e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu oruchwylio)
- Parodrwydd i ymgysylltu â thechnolegau ar-lein

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- Profiad o hyfforddi ar-lein
- Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o addysgu ac asesu e-Ddysgu

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7

Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6